# Prawf Sillafu Cymraeg Safonedig Consortiwm Canolbarth y De



Prifysgol Caerdydd
Cardiff University
Ysgol y Gymraeg
School of Welsh

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

**Grymuso ysgolion i wella deilliannau i bob dysgwr**

**Empowering schools to improve outcomes for all learners**

**Prawf Sillafu Cymraeg Safonedig**
**Consortiwm Canolbarth y De**
**Fersiwn 1.0**

**Prifysgol Caerdydd:**
Dr Jonathan Morris (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd)
Dr Rosanna Stenner (Ysgol Seicoleg, Prifysgol Caerdydd)
Dr Geraint Palmer (Ysgol Mathemateg, Prifysgol Caerdydd)
Dr Dylan Foster Evans (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd)

Gyda diolch i Dr Elin Arfon am ei gwaith dadansoddi geiriau.

**Hoffem ddiolch yn fawr i'r ysgolion canlynol am beilota'r prawf:**
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg 3–19, Bro Morgannwg
Ysgol Gynradd Dolau, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes, Caerdydd
Ysgol Gyfun Rhydywaun, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gymraeg Sant Curig, Bro Morgannwg
Ysgol Gymraeg Santes Tudful, Merthyr Tudful
Ysgol Gymraeg Treganna, Caerdydd

**Hoffem ddiolch hefyd i'r ysgolion canlynol a fu'n rhan o'r broses ymgynghori ar y prawf:**
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Caerdydd
Ysgol Gymraeg Rhyd-y-Grug, Merthyr Tudful
Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, Pen-y-Bont ar Ogwr.

**Consortiwm Canolbarth y De:**
Huw Vaughan Hughes, Ymgynghorydd Cysylltiol Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg)
Huw.Hughes@cscjes.org.uk
Chris Newcombe, Prif Bartner Gwella - Polisi, Safonau a Gwelliant Y Gymraeg
christopher.newcombe@cscjes.org.uk

Os hoffech gymryd rhan mewn unrhyw brosesau safoni'r prawf yn y dyfodol, cysylltwch â Dr Jonathan Morris – MorrisJ17@caerdydd.ac.uk

## Cynnwys

*Cyflwyniad* ..... *4*
*Methodoleg* ..... *5*
1.1 Dewis y geiriau ..... 5
1.2 Peilota'r prawf ..... 5
1.3 Safoni'r prawf ..... 5
1.4 Defnyddio sgorau safonedig ..... 6
*Cyfarwyddiadau* ..... *7*
*Prawf A* ..... *8*
*Prawf B* ..... *10*
*Atodiad: Sgorau Safonedig fesul oedran* ..... *12*

# Cyflwyniad

Creu prawf sillafu hwylus ar gyfer monitro cywirdeb sillafu disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd nod y prosiect hwn. Comisiynwyd y prawf gan Gonsortiwm Canolbarth y De ac fe'i luniwyd gan dîm o ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd.

Mae Prawf Sillafu Consortiwm Canolbarth y De yn cynnwys dau brawf. Mae pob prawf yn cynnwys 45 gair. Mae modd i ymarferwr ddefnyddio'r ddwy ffurflen ar adegau gwahanol er mwyn asesu cynnydd unigolion a'u cymharu â sgorau safonedig. Mae'r sgorau safonedig yn seiliedig ar sgorau 1920 o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r prawf yn addas i ddisgyblion rhwng 7 a 14 mlwydd oed mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae modd cymharu canlyniadau sgorau disgyblion â sgorau safonedig.

- Mae modd gweld **amrediad llawn** cywirdeb sillafu disgyblion mewn ysgolion gynradd.
- Gall y prawf fod yn adnodd i ddarganfod a yw disgybl hyd at 14 mlwydd oed yn perfformio **o dan yr amrediad normal** mewn ysgolion uwchradd.
- Ceir dau brawf fel bod modd dadansoddi **cynnydd unigolion** dros amser.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y broses o lunio'r prawf ynghyd â chyfarwyddiadau ar ei ddefnyddio.

# Methodoleg

## 1.1 Dewis y geiriau

Gwnaethpwyd dadansoddiad o orgraff y Gymraeg er mwyn sicrhau amrediad addas o eiriau. Ystyriwyd y nodweddion canlynol:

- graffemau a ffonemau cytseiniol (e.e. <d>, <ll>);
- graffemau a deugraffau eraill a ddefnyddir wrth ysgrifennu'r Gymraeg (e.e. <j>);
- graffemau a ffonemau llafarog (llafariaid a deuseiniaid, e.e. <a> ac <ae>);
- clystyrau (e.e. <sgl>);
- geiriau cyfansawdd (e.e. eirlaw);
- rhagddodiaid (e.e. mewnbwn);
- ôl-ddodiaid (e.e. marchog);
- rhyngddodiaid (e.e. ffrwythlonrwydd);
- y cysylltnod (e.e. dad-ddysgu);
- y didolnod (e.e. copïo);
- yr acen ddyrchafedig (e.e. casáu);
- yr acen ddisgynedig (e.e. pìn);
- yr acen grom (e.e. llên).

Yn wreiddiol, gwnaethpwyd ymdrech i sicrhau bod enghreifftiau o'r holl nodweddion yn rhan o'r prawf. Wrth wneud hyn, sylweddolom y byddai'n well sicrhau bod y prawf yn canolbwyntio ar eiriau a gyflwynir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Er mwyn sicrhau tegwch i'r plant, felly, seiliwyd y geiriau ar eiriau sillafu a awgrymwyd gan ysgolion.

## 1.2 Peilota'r prawf

Casglwyd y data peilot yn ystod 2023/24. Gwahoddwyd athrawon i nodi unrhyw anawsterau a gododd yn ystod y prawf. Newidiwyd geiriau a achosodd broblemau cyson.

## 1.3 Safoni'r prawf

Cymerodd naw ysgol cyfrwng Cymraeg ran yn y broses o safoni'r prawf. Cynhaliwyd y gwaith safoni rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2023.

Gofynnwyd i'r ymarferwyr gynnal y ddau brawf ar adegau gwahanol. Ym mhob achos, rhoddwyd Prawf A yn gyntaf. Cwblhawyd Prawf B gan yr un garfan o ddisgyblion ar ôl mis. Gofynnwyd i'r ymarferwyr nodi'r wybodaeth ganlynol:

- llythrennau cyntaf enw'r disgybl er mwyn osgoi dryswch wrth gofnodi'r sgorau;
- dyddiad geni;
- rhywedd;
- iaith ar yr aelwyd;

- dyddiad y prawf;
- sgôr (allan o 45).

Cymerodd 1920 disgybl rhwng 7 a 14 mlwydd oed (Bl. 3-9) ran yn y broses o safoni'r prawf:

- Ar gyfartaledd, roedd **274 disgybl fesul blwyddyn** yn y sampl;
- Roedd tua **52% yn ferched** (*n*=1003); roedd tua **48% yn fechgen** (*n*=916); roedd **un person anneuaidd** yn y sampl;
- Roedd **28% o'r sampl yn defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd** (*n*=533).

Dadansoddwyd y data er mwyn gweld a oes cydberthynas rhwng y sgôr gymedrig a'r amser rhwng y profion, rhywedd, blwyddyn ysgol, oedran, ac iaith ar yr aelwyd.

- Ni welwyd bod yr amser rhwng y ddau brawf yn cael effaith ar y sgôr;
- Ni welwyd gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched waeth beth fo'u blwyddyn ysgol, eu hoedran neu eu cefndir ieithyddol (sylwer nad oes digon o bobl anneuaidd i'w cynnwys yn y dadansoddiad hwn);
- Gwelwyd bod **sgorau'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn**.

Cafwyd tuedd i ddisgyblion wneud yn well ar Brawf A. Er mwyn creu'r sgorau'r safonedig, felly, defnyddiwyd y sgôr gymedrig rhwng y ddau brawf.

## 1.4 Defnyddio sgorau safonedig

Cyflwynir cyfres o sgorau safonedig yn yr atodiad. Mae sgorau safonedig yn rhoi syniad o sut mae unigolion yn perfformio ar y prawf o'i gymharu â'r sampl. Dengys Tabl 1 ddehongliad ansoddol y sgorau safonedig.

*Tabl 1: Dehongliad ansoddol o'r sgorau safonedig*.

| Sgôr safonedig | Dehongliad ansoddol |
|---|---|
| 130 neu drosodd | Yn sylweddol uwch na'r sgôr ganolig |
| 116–130 | Yn uwch na'r sgôr ganolig |
| 85–115 | Yn debyg i'r sgôr ganolig |
| 70–84 | Llai na'r sgôr ganolig |
| Llai na 69 | Yn sylweddol lai na'r sgôr ganolig |

## Cyfarwyddiadau

- Argraffwch un o'r profion sillafu.
- Nodwch enw, dyddiad geni, a dyddiad y prawf wrth gofnodi'r canlyniadau.
- Gellir cwblhau'r prawf mewn grŵp neu un-wrth-un.
- Gofynnir i'r ymarferwyr ddarllen y geiriau ar goedd. Ni ddylai'r disgyblion weld y geiriau.
- Dylid cyflwyno'r prawf a'r cyfarwyddiadau, er enghraifft:
    - *'Dw i eisiau i chi sillafu ambell air. Ceisiwch sillafu pob un gair gan ddefnyddio'r daflen hon. Gwrandewch.'*
- Dylid defnyddio'r patrwm canlynol wrth ddweud y geiriau:
    - Gair → Gair mewn brawddeg → Gair
- Wrth osod y prawf, gwnewch yn siŵr bod y disgybl yn ysgrifennu'r gair yn unig ac nid y frawddeg enghreifftiol.
- Gwnewch yn siŵr bod amser i'r disgyblion wirio eu hatebion ar ôl pob gair.
- Dylid annog disgyblion i sillafu geiriau anghyfarwydd.
- Rhowch farc i bob gair cywir (gan ystyried y defnydd cywir o acenion e.e. môr).
- Cofnodwch y sgôr crai (allan o 45).
- Defnyddiwch y sgôr crai er mwyn dod o hyd i'r sgôr safonedig (gweler yr atodiad).
- Os hoffech edrych ar gynnydd y disgybl, awgrymir ichi wneud yr ail brawf ar ôl cyfnod o chwe mis.

**Prawf Sillafu Cymraeg Safonedig**
**Consortiwm Canolbarth y De ac Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd**

# Prawf A

| | Gair → | Gair mewn brawddeg → | Gair |
|---|---|---|---|
| 1. | mae | Mae plant yr ysgol yn hapus. | mae |
| 2. | ci | Mae'r ci bach yn gwneud sŵn. | ci |
| 3. | mynd | Rydw i'n mynd i'r ysgol ar y bws. | mynd |
| 4. | gwneud | Mae'r plant yn gwneud castell tywod. | gwneud |
| 5. | sgarff | Rydyn ni'n gwisgo sgarff yn y gaeaf. | sgarff |
| 6. | môr | Mae'r pysgod yn nofio yn y môr. | môr |
| 7. | cylch | Roedd y plant yn cerdded mewn cylch ar yr iard. | cylch |
| 8. | llaw | Rydw i'n codi fy llaw i ofyn cwestiwn. | llaw |
| 9. | fferm | Mae anifeiliaid yn byw ar y fferm. | fferm |
| 10. | beic | Mae olwynion y beic yn troi'n gyflym. | beic |
| 11. | coed | Dau gi bach yn mynd i'r coed. | coed |
| 12. | dydd | Maen nhw'n mynd i'r ysgol bob dydd. | dydd |
| 13. | llwyd | Roedd y cymylau'n llwyd cyn y storm. | llwyd |
| 14. | pont | Pont hir sy'n mynd dros yr afon. | pont |
| 15. | gwyllt | Rydyn ni'n dysgu am fywyd gwyllt yn yr ardd. | gwyllt |
| 16. | deffro | Rydw i'n deffro am saith o'r gloch bob bore. | deffro |
| 17. | athro | Mae'r athro yn hapus gyda'r dosbarth. | athro |
| 18. | ifanc | Mae'r plentyn yn ifanc. | ifanc |
| 19. | llong | Mae'r llong yn teithio ar y môr. | llong |
| 20. | chwarae | Mae'r plant yn chwarae ar y traeth. | chwarae |
| 21. | cathod | Mae cathod yn casáu cŵn. | cathod |
| 22. | canu | Mae Jac yn canu yn uchel. | canu |
| 23. | cynnig | Mae'r athrawes yn cynnig helpu'r plentyn. | cynnig |
| 24. | melin | Mae melin wynt yn gallu creu trydan. | melin |
| 25. | gorffen | Roedden ni'n ceisio gorffen y gwaith cyn amser cinio. | gorffen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26. | gwerthu | Maen nhw'n gwerthu gemau yn y siop. | gwerthu |
| 27. | sefyll | Pan oedden ni'n sefyll ar ben y mynydd, roedden ni'n gallu gweld yn bell. | sefyll |
| 28. | cadeiriau | Rhowch eich cadeiriau o dan y byrddau. | cadeiriau |
| 29. | cymaint | Dywedodd hi fod cymaint o lyfrau diddorol yn y llyfrgell. | cymaint |
| 30. | gwobr | Mae'r athrawes eisiau rhoi gwobr i'r dosbarth am fod yn garedig. | gwobr |
| 31. | dwylo | Mae'n bwysig golchi'ch dwylo cyn ichi fwyta. | dwylo |
| 32. | cyrraedd | Mae'r trên yn cyrraedd yr orsaf. | cyrraedd |
| 33. | annwyl | Maen nhw'n bobl annwyl iawn sy'n hapus i'ch helpu. | annwyl |
| 34. | bylchau | Mae'n rhaid llenwi'r bylchau yn y prawf. | bylchau |
| 35. | anffodus | Yn anffodus, dydyn ni ddim yn gallu dod i'r parti. | anffodus |
| 36. | rhewllyd | Mae'r strydoedd yn rhewllyd yn y gaeaf. | rhewllyd |
| 37. | cyfeillgar | Mae Mrs. Jones yn berson cyfeillgar iawn. | cyfeillgar |
| 38. | presennol | Rydyn ni'n siarad yn yr amser presennol i sôn am bethau sy'n digwydd nawr. | presennol |
| 39. | gwyddoniaeth | Rydw i'n hoffi gwersi gwyddoniaeth. | gwyddoniaeth |
| 40. | darllenwch | Darllenwch y stori am yr antur fawr. | darllenwch |
| 41. | cynrychioli | Mae'r athletwyr yn cynrychioli eu gwlad. | cynrychioli |
| 42. | anniddorol | Roedd y ffilm yn anniddorol ac yn ddiflas. | anniddorol |
| 43. | cystadleuaeth | Mae sawl cystadleuaeth newydd yn yr Eisteddfod eleni. | cystadleuaeth |
| 44. | dadansoddiadau | Mae hi'n gwneud dadansoddiadau o'r canlyniadau. | dadansoddiadau |
| 45. | anfodlonrwydd | Roedd ei anfodlonrwydd gyda'i berfformiad gwael yn amlwg. | anfodlonrwydd |

**Prawf Sillafu Cymraeg Safonedig**
**Consortiwm Canolbarth y De ac Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd**

# Prawf B

| | Gair → | Gair mewn brawddeg → | Gair |
|---|---|---|---|
| 1. | cae | Mae'r fuwch yn sefyll yn y cae. | cae |
| 2. | ti | Sut wyt ti? | ti |
| 3. | ffrind | Mae Siân yn ffrind da i Cai. | ffrind |
| 4. | dweud | Mae'r athrawes yn dweud 'Bore da'. | dweud |
| 5. | corff | Mae'r pen yn rhan o'r corff. | corff |
| 6. | côr | Rydyn ni'n ymarfer canu yn y côr amser cinio. | côr |
| 7. | diolch | Diolch yn fawr iawn! | diolch |
| 8. | brawd | Brawd mawr a brawd bach sydd gan Osian. | brawd |
| 9. | fforc | Rydw i'n bwyta gyda chyllell a fforc. | fforc |
| 10. | ceir | Mae pobl yn gyrru ceir. | ceir |
| 11. | oed | Mae hi'n ddeg oed heddiw. | oed |
| 12. | sudd | Rydyn ni'n yfed sudd oren yn y bore. | sudd |
| 13. | trwyn | Mae trwyn y ci bach yn ddu. | trwyn |
| 14. | punt | Mae'r llyfr yn costio deg punt. | punt |
| 15. | tywallt | Mae Tom yn tywallt y dŵr poeth i'r jwg. | tywallt |
| 16. | cyffro | Roedd y plant yn llawn cyffro yn y parti. | cyffro |
| 17. | athrawes | Mae'r athrawes yn hapus gyda gwaith y dosbarth. | athrawes |
| 18. | cranc | Mae cranc yn y pwll dŵr. | cranc |
| 19. | rhwng | Mae'r parc rhwng y pwll nofio a'r archfarchnad. | rhwng |
| 20. | dechrau | Bydd y ras yn dechrau mewn munud. | dechrau |
| 21. | gormod | Doeddwn i ddim yn gallu symud gan fod gormod o bobl yno. | gormod |
| 22. | prynu | Bydda i'n prynu esgidiau yn y siop yfory. | prynu |
| 23. | cynnwys | Mae cynnwys y llyfr yn ddiddorol iawn. | cynnwys |
| 24. | pwdin | Mae pwdin siocled yn fwy blasus na jeli. | pwdin |
| 25. | perffaith | Dyma dywydd perffaith i fynd i'r traeth! | perffaith |
| 26. | chwythu | Mae'r gwynt yn chwythu. | chwythu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27. | cyfaill | Gair arall am ffrind ydy cyfaill. | cyfaill |
| 28. | tasgau | Mae tasgau gwaith cartref yn hwyl. | tasgau |
| 29. | ysgyfaint | Mae'r ddau ysgyfaint yn ein helpu ni i anadlu. | ysgyfaint |
| 30. | llwybr | Rydyn ni'n dilyn y llwybr drwy'r coed. | llwybr |
| 31. | morlo | Anifail sy'n byw yn y môr yw morlo. | morlo |
| 32. | torri | Mae Nia wedi torri ei braich. | torri |
| 33. | annwyd | Mae e'n pesychu gan fod annwyd trwm arno fe. | annwyd |
| 34. | cylchoedd | Roedden ni'n benysgafn ar ôl rhedeg mewn cylchoedd. | cylchoedd |
| 35. | anhrefnus | Mae fy llofft i yn anhrefnus gyda dillad ymhob man. | anhrefnus |
| 36. | tywodlyd | Mae'n well gen i draethau tywodlyd na thraethau caregog. | tywodlyd |
| 37. | gweithgar | Rydyn ni'n blant gweithgar iawn yn y gwersi. | gweithgar |
| 38. | gorffennol | Rydw i'n hoffi darllen am y gorffennol mewn llyfrau hanes. | gorffennol |
| 39. | barddoniaeth | Rydw i'n hoffi darllen barddoniaeth ddoniol. | barddoniaeth |
| 40. | gofynnwch | Gofynnwch iddyn nhw ddod yma ar frys. | gofynnwch |
| 41. | ffurfioli | Rydyn ni wedi ffurfioli y broses o ddewis capteiniaid. | ffurfioli |
| 42. | annibyniaeth | Rydw i eisiau annibyniaeth i weithio ar fy mhen fy hun. | annibyniaeth |
| 43. | breuddwydion | Rydyn ni am wneud yn siŵr bod y plant yn gwireddu eu breuddwydion. | breuddwydion |
| 44. | cyfansoddiadau | Mae'r disgyblion yn creu cyfansoddiadau cerddorol ar gyfer y sioe. | cyfansoddiadau |
| 45. | amharodrwydd | Roedd ei amharodrwydd i gymryd rhan yn y gêm yn siomedig. | amharodrwydd |

# Atodiad: Sgorau Safonedig fesul oedran

| Oedran | 7 | 7.25 | 7.5 | 7.75 | 8 | 8.25 | 8.5 | 8.75 | 9 | 9.25 | 9.5 | 9.75 | 10 | 10.25 | 10.5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr Crai | | | | | | | | | | | | | | | |
| 0 | 75.8 | 74.4 | 73 | 71.7 | 70.3 | 68.9 | 67.5 | 66.1 | 64.8 | 63.4 | 62 | 60.6 | 59.3 | 57.9 | 56.5 |
| 1 | 77.5 | 76.1 | 74.7 | 73.4 | 72 | 70.6 | 69.2 | 67.8 | 66.5 | 65.1 | 63.7 | 62.3 | 61 | 59.6 | 58.2 |
| 2 | 79.2 | 77.8 | 76.4 | 75.1 | 73.7 | 72.3 | 70.9 | 69.6 | 68.2 | 66.8 | 65.4 | 64 | 62.7 | 61.3 | 59.9 |
| 3 | 80.9 | 79.5 | 78.1 | 76.8 | 75.4 | 74 | 72.6 | 71.3 | 69.9 | 68.5 | 67.1 | 65.7 | 64.4 | 63 | 61.6 |
| 4 | 82.6 | 81.2 | 79.8 | 78.5 | 77.1 | 75.7 | 74.3 | 73 | 71.6 | 70.2 | 68.8 | 67.5 | 66.1 | 64.7 | 63.3 |
| 5 | 84.3 | 82.9 | 81.6 | 80.2 | 78.8 | 77.4 | 76 | 74.7 | 73.3 | 71.9 | 70.5 | 69.2 | 67.8 | 66.4 | 65 |
| 6 | 86 | 84.6 | 83.3 | 81.9 | 80.5 | 79.1 | 77.7 | 76.4 | 75 | 73.6 | 72.2 | 70.9 | 69.5 | 68.1 | 66.7 |
| 7 | 87.7 | 86.3 | 85 | 83.6 | 82.2 | 80.8 | 79.4 | 78.1 | 76.7 | 75.3 | 73.9 | 72.6 | 71.2 | 69.8 | 68.4 |
| 8 | 89.4 | 88 | 86.7 | 85.3 | 83.9 | 82.5 | 81.2 | 79.8 | 78.4 | 77 | 75.6 | 74.3 | 72.9 | 71.5 | 70.1 |
| 9 | 91.1 | 89.7 | 88.4 | 87 | 85.6 | 84.2 | 82.9 | 81.5 | 80.1 | 78.7 | 77.3 | 76 | 74.6 | 73.2 | 71.8 |
| 10 | 92.8 | 91.4 | 90.1 | 88.7 | 87.3 | 85.9 | 84.6 | 83.2 | 81.8 | 80.4 | 79.1 | 77.7 | 76.3 | 74.9 | 73.5 |
| 11 | 94.5 | 93.2 | 91.8 | 90.4 | 89 | 87.6 | 86.3 | 84.9 | 83.5 | 82.1 | 80.8 | 79.4 | 78 | 76.6 | 75.2 |
| 12 | 96.2 | 94.9 | 93.5 | 92.1 | 90.7 | 89.3 | 88 | 86.6 | 85.2 | 83.8 | 82.5 | 81.1 | 79.7 | 78.3 | 76.9 |
| 13 | 97.9 | 96.6 | 95.2 | 93.8 | 92.4 | 91 | 89.7 | 88.3 | 86.9 | 85.5 | 84.2 | 82.8 | 81.4 | 80 | 78.7 |
| 14 | 99.6 | 98.3 | 96.9 | 95.5 | 94.1 | 92.8 | 91.4 | 90 | 88.6 | 87.2 | 85.9 | 84.5 | 83.1 | 81.7 | 80.4 |
| 15 | 101.3 | 100 | 98.6 | 97.2 | 95.8 | 94.5 | 93.1 | 91.7 | 90.3 | 88.9 | 87.6 | 86.2 | 84.8 | 83.4 | 82.1 |
| 16 | 103 | 101.7 | 100.3 | 98.9 | 97.5 | 96.2 | 94.8 | 93.4 | 92 | 90.7 | 89.3 | 87.9 | 86.5 | 85.1 | 83.8 |
| 17 | 104.8 | 103.4 | 102 | 100.6 | 99.2 | 97.9 | 96.5 | 95.1 | 93.7 | 92.4 | 91 | 89.6 | 88.2 | 86.8 | 85.5 |
| 18 | 106.5 | 105.1 | 103.7 | 102.3 | 100.9 | 99.6 | 98.2 | 96.8 | 95.4 | 94.1 | 92.7 | 91.3 | 89.9 | 88.5 | 87.2 |
| 19 | 108.2 | 106.8 | 105.4 | 104 | 102.7 | 101.3 | 99.9 | 98.5 | 97.1 | 95.8 | 94.4 | 93 | 91.6 | 90.3 | 88.9 |
| 20 | 109.9 | 108.5 | 107.1 | 105.7 | 104.4 | 103 | 101.6 | 100.2 | 98.8 | 97.5 | 96.1 | 94.7 | 93.3 | 92 | 90.6 |
| 21 | 111.6 | 110.2 | 108.8 | 107.4 | 106.1 | 104.7 | 103.3 | 101.9 | 100.5 | 99.2 | 97.8 | 96.4 | 95 | 93.7 | 92.3 |
| 22 | 113.3 | 111.9 | 110.5 | 109.1 | 107.8 | 106.4 | 105 | 103.6 | 102.3 | 100.9 | 99.5 | 98.1 | 96.7 | 95.4 | 94 |
| 23 | 115 | 113.6 | 112.2 | 110.8 | 109.5 | 108.1 | 106.7 | 105.3 | 104 | 102.6 | 101.2 | 99.8 | 98.4 | 97.1 | 95.7 |
| 24 | 116.7 | 115.3 | 113.9 | 112.5 | 111.2 | 109.8 | 108.4 | 107 | 105.7 | 104.3 | 102.9 | 101.5 | 100.1 | 98.8 | 97.4 |
| 25 | 118.4 | 117 | 115.6 | 114.3 | 112.9 | 111.5 | 110.1 | 108.7 | 107.4 | 106 | 104.6 | 103.2 | 101.9 | 100.5 | 99.1 |
| 26 | 120.1 | 118.7 | 117.3 | 116 | 114.6 | 113.2 | 111.8 | 110.4 | 109.1 | 107.7 | 106.3 | 104.9 | 103.6 | 102.2 | 100.8 |
| 27 | 121.8 | 120.4 | 119 | 117.7 | 116.3 | 114.9 | 113.5 | 112.1 | 110.8 | 109.4 | 108 | 106.6 | 105.3 | 103.9 | 102.5 |
| 28 | 123.5 | 122.1 | 120.7 | 119.4 | 118 | 116.6 | 115.2 | 113.9 | 112.5 | 111.1 | 109.7 | 108.3 | 107 | 105.6 | 104.2 |
| 29 | 125.2 | 123.8 | 122.4 | 121.1 | 119.7 | 118.3 | 116.9 | 115.6 | 114.2 | 112.8 | 111.4 | 110 | 108.7 | 107.3 | 105.9 |
| 30 | 126.9 | 125.5 | 124.1 | 122.8 | 121.4 | 120 | 118.6 | 117.3 | 115.9 | 114.5 | 113.1 | 111.7 | 110.4 | 109 | 107.6 |
| 31 | 128.6 | 127.2 | 125.9 | 124.5 | 123.1 | 121.7 | 120.3 | 119 | 117.6 | 116.2 | 114.8 | 113.5 | 112.1 | 110.7 | 109.3 |
| 32 | 130.3 | 128.9 | 127.6 | 126.2 | 124.8 | 123.4 | 122 | 120.7 | 119.3 | 117.9 | 116.5 | 115.2 | 113.8 | 112.4 | 111 |
| 33 | 132 | 130.6 | 129.3 | 127.9 | 126.5 | 125.1 | 123.7 | 122.4 | 121 | 119.6 | 118.2 | 116.9 | 115.5 | 114.1 | 112.7 |
| 34 | 133.7 | 132.3 | 131 | 129.6 | 128.2 | 126.8 | 125.5 | 124.1 | 122.7 | 121.3 | 119.9 | 118.6 | 117.2 | 115.8 | 114.4 |
| 35 | 135.4 | 134 | 132.7 | 131.3 | 129.9 | 128.5 | 127.2 | 125.8 | 124.4 | 123 | 121.6 | 120.3 | 118.9 | 117.5 | 116.1 |
| 36 | 137.1 | 135.7 | 134.4 | 133 | 131.6 | 130.2 | 128.9 | 127.5 | 126.1 | 124.7 | 123.3 | 122 | 120.6 | 119.2 | 117.8 |
| 37 | 138.8 | 137.5 | 136.1 | 134.7 | 133.3 | 131.9 | 130.6 | 129.2 | 127.8 | 126.4 | 125.1 | 123.7 | 122.3 | 120.9 | 119.5 |
| 38 | 140.5 | 139.2 | 137.8 | 136.4 | 135 | 133.6 | 132.3 | 130.9 | 129.5 | 128.1 | 126.8 | 125.4 | 124 | 122.6 | 121.2 |
| 39 | 142.2 | 140.9 | 139.5 | 138.1 | 136.7 | 135.3 | 134 | 132.6 | 131.2 | 129.8 | 128.5 | 127.1 | 125.7 | 124.3 | 123 |
| 40 | 143.9 | 142.6 | 141.2 | 139.8 | 138.4 | 137.1 | 135.7 | 134.3 | 132.9 | 131.5 | 130.2 | 128.8 | 127.4 | 126 | 124.7 |
| 41 | 145.6 | 144.3 | 142.9 | 141.5 | 140.1 | 138.8 | 137.4 | 136 | 134.6 | 133.2 | 131.9 | 130.5 | 129.1 | 127.7 | 126.4 |
| 42 | 147.3 | 146 | 144.6 | 143.2 | 141.8 | 140.5 | 139.1 | 137.7 | 136.3 | 135 | 133.6 | 132.2 | 130.8 | 129.4 | 128.1 |
| 43 | 149.1 | 147.7 | 146.3 | 144.9 | 143.5 | 142.2 | 140.8 | 139.4 | 138 | 136.7 | 135.3 | 133.9 | 132.5 | 131.1 | 129.8 |
| 44 | 150.8 | 149.4 | 148 | 146.6 | 145.2 | 143.9 | 142.5 | 141.1 | 139.7 | 138.4 | 137 | 135.6 | 134.2 | 132.8 | 131.5 |
| 45 | 152.5 | 151.1 | 149.7 | 148.3 | 146.9 | 145.6 | 144.2 | 142.8 | 141.4 | 140.1 | 138.7 | 137.3 | 135.9 | 134.6 | 133.2 |

| Sgôr safonedig | Dehongliad ansoddol |
|---|---|
| 130 neu drosodd | Yn sylweddol uwch na'r sgôr ganolig |
| 116–130 | Yn uwch na'r sgôr ganolig |
| 85–115 | Yn debyg i'r sgôr ganolig |
| 70–84 | Llai na'r sgôr ganolig |
| Llai na 69 | Yn sylweddol lai na'r sgôr ganolig |

| Oedran | 10.75 | 11 | 11.25 | 11.5 | 11.75 | 12 | 12.25 | 12.5 | 12.75 | 13 | 13.25 | 13.5 | 13.75 | 14 | 14.25 | 14.5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr Crai | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 0 | 55.1 | 53.7 | 52.4 | 51 | | | | | | | | | | | | |
| 1 | 56.8 | 55.5 | 54.1 | 52.7 | 51.3 | | | | | | | | | | | |
| 2 | 58.5 | 57.2 | 55.8 | 54.4 | 53 | 51.6 | 50.3 | | | | | | | | | |
| 3 | 60.2 | 58.9 | 57.5 | 56.1 | 54.7 | 53.3 | 52 | 50.6 | | | | | | | | |
| 4 | 61.9 | 60.6 | 59.2 | 57.8 | 56.4 | 55.1 | 53.7 | 52.3 | 50.9 | | | | | | | |
| 5 | 63.6 | 62.3 | 60.9 | 59.5 | 58.1 | 56.8 | 55.4 | 54 | 52.6 | 51.2 | | | | | | |
| 6 | 65.3 | 64 | 62.6 | 61.2 | 59.8 | 58.5 | 57.1 | 55.7 | 54.3 | 52.9 | 51.6 | 50.2 | | | | |
| 7 | 67.1 | 65.7 | 64.3 | 62.9 | 61.5 | 60.2 | 58.8 | 57.4 | 56 | 54.7 | 53.3 | 51.9 | 50.5 | | | |
| 8 | 68.8 | 67.4 | 66 | 64.6 | 63.2 | 61.9 | 60.5 | 59.1 | 57.7 | 56.4 | 55 | 53.6 | 52.2 | 50.8 | | |
| 9 | 70.5 | 69.1 | 67.7 | 66.3 | 64.9 | 63.6 | 62.2 | 60.8 | 59.4 | 58.1 | 56.7 | 55.3 | 53.9 | 52.6 | 51.2 | |
| 10 | 72.2 | 70.8 | 69.4 | 68 | 66.7 | 65.3 | 63.9 | 62.5 | 61.1 | 59.8 | 58.4 | 57 | 55.6 | 54.3 | 52.9 | 51.5 |
| 11 | 73.9 | 72.5 | 71.1 | 69.7 | 68.4 | 67 | 65.6 | 64.2 | 62.8 | 61.5 | 60.1 | 58.7 | 57.3 | 56 | 54.6 | 53.2 |
| 12 | 75.6 | 74.2 | 72.8 | 71.4 | 70.1 | 68.7 | 67.3 | 65.9 | 64.6 | 63.2 | 61.8 | 60.4 | 59 | 57.7 | 56.3 | 54.9 |
| 13 | 77.3 | 75.9 | 74.5 | 73.1 | 71.8 | 70.4 | 69 | 67.6 | 66.3 | 64.9 | 63.5 | 62.1 | 60.7 | 59.4 | 58 | 56.6 |
| 14 | 79 | 77.6 | 76.2 | 74.8 | 73.5 | 72.1 | 70.7 | 69.3 | 68 | 66.6 | 65.2 | 63.8 | 62.4 | 61.1 | 59.7 | 58.3 |
| 15 | 80.7 | 79.3 | 77.9 | 76.5 | 75.2 | 73.8 | 72.4 | 71 | 69.7 | 68.3 | 66.9 | 65.5 | 64.2 | 62.8 | 61.4 | 60 |
| 16 | 82.4 | 81 | 79.6 | 78.3 | 76.9 | 75.5 | 74.1 | 72.7 | 71.4 | 70 | 68.6 | 67.2 | 65.9 | 64.5 | 63.1 | 61.7 |
| 17 | 84.1 | 82.7 | 81.3 | 80 | 78.6 | 77.2 | 75.8 | 74.4 | 73.1 | 71.7 | 70.3 | 68.9 | 67.6 | 66.2 | 64.8 | 63.4 |
| 18 | 85.8 | 84.4 | 83 | 81.7 | 80.3 | 78.9 | 77.5 | 76.2 | 74.8 | 73.4 | 72 | 70.6 | 69.3 | 67.9 | 66.5 | 65.1 |
| 19 | 87.5 | 86.1 | 84.7 | 83.4 | 82 | 80.6 | 79.2 | 77.9 | 76.5 | 75.1 | 73.7 | 72.3 | 71 | 69.6 | 68.2 | 66.8 |
| 20 | 89.2 | 87.8 | 86.4 | 85.1 | 83.7 | 82.3 | 80.9 | 79.6 | 78.2 | 76.8 | 75.4 | 74 | 72.7 | 71.3 | 69.9 | 68.5 |
| 21 | 90.9 | 89.5 | 88.1 | 86.8 | 85.4 | 84 | 82.6 | 81.3 | 79.9 | 78.5 | 77.1 | 75.8 | 74.4 | 73 | 71.6 | 70.2 |
| 22 | 92.6 | 91.2 | 89.9 | 88.5 | 87.1 | 85.7 | 84.3 | 83 | 81.6 | 80.2 | 78.8 | 77.5 | 76.1 | 74.7 | 73.3 | 71.9 |
| 23 | 94.3 | 92.9 | 91.6 | 90.2 | 88.8 | 87.4 | 86 | 84.7 | 83.3 | 81.9 | 80.5 | 79.2 | 77.8 | 76.4 | 75 | 73.6 |
| 24 | 96 | 94.6 | 93.3 | 91.9 | 90.5 | 89.1 | 87.8 | 86.4 | 85 | 83.6 | 82.2 | 80.9 | 79.5 | 78.1 | 76.7 | 75.4 |
| 25 | 97.7 | 96.3 | 95 | 93.6 | 92.2 | 90.8 | 89.5 | 88.1 | 86.7 | 85.3 | 83.9 | 82.6 | 81.2 | 79.8 | 78.4 | 77.1 |
| 26 | 99.4 | 98 | 96.7 | 95.3 | 93.9 | 92.5 | 91.2 | 89.8 | 88.4 | 87 | 85.6 | 84.3 | 82.9 | 81.5 | 80.1 | 78.8 |
| 27 | 101.1 | 99.8 | 98.4 | 97 | 95.6 | 94.2 | 92.9 | 91.5 | 90.1 | 88.7 | 87.4 | 86 | 84.6 | 83.2 | 81.8 | 80.5 |
| 28 | 102.8 | 101.5 | 100.1 | 98.7 | 97.3 | 95.9 | 94.6 | 93.2 | 91.8 | 90.4 | 89.1 | 87.7 | 86.3 | 84.9 | 83.5 | 82.2 |
| 29 | 104.5 | 103.2 | 101.8 | 100.4 | 99 | 97.6 | 96.3 | 94.9 | 93.5 | 92.1 | 90.8 | 89.4 | 88 | 86.6 | 85.2 | 83.9 |
| 30 | 106.2 | 104.9 | 103.5 | 102.1 | 100.7 | 99.4 | 98 | 96.6 | 95.2 | 93.8 | 92.5 | 91.1 | 89.7 | 88.3 | 87 | 85.6 |
| 31 | 107.9 | 106.6 | 105.2 | 103.8 | 102.4 | 101.1 | 99.7 | 98.3 | 96.9 | 95.5 | 94.2 | 92.8 | 91.4 | 90 | 88.7 | 87.3 |
| 32 | 109.6 | 108.3 | 106.9 | 105.5 | 104.1 | 102.8 | 101.4 | 100 | 98.6 | 97.2 | 95.9 | 94.5 | 93.1 | 91.7 | 90.4 | 89 |
| 33 | 111.4 | 110 | 108.6 | 107.2 | 105.8 | 104.5 | 103.1 | 101.7 | 100.3 | 99 | 97.6 | 96.2 | 94.8 | 93.4 | 92.1 | 90.7 |
| 34 | 113.1 | 111.7 | 110.3 | 108.9 | 107.5 | 106.2 | 104.8 | 103.4 | 102 | 100.7 | 99.3 | 97.9 | 96.5 | 95.1 | 93.8 | 92.4 |
| 35 | 114.8 | 113.4 | 112 | 110.6 | 109.2 | 107.9 | 106.5 | 105.1 | 103.7 | 102.4 | 101 | 99.6 | 98.2 | 96.9 | 95.5 | 94.1 |
| 36 | 116.5 | 115.1 | 113.7 | 112.3 | 111 | 109.6 | 108.2 | 106.8 | 105.4 | 104.1 | 102.7 | 101.3 | 99.9 | 98.6 | 97.2 | 95.8 |
| 37 | 118.2 | 116.8 | 115.4 | 114 | 112.7 | 111.3 | 109.9 | 108.5 | 107.1 | 105.8 | 104.4 | 103 | 101.6 | 100.3 | 98.9 | 97.5 |
| 38 | 119.9 | 118.5 | 117.1 | 115.7 | 114.4 | 113 | 111.6 | 110.2 | 108.8 | 107.5 | 106.1 | 104.7 | 103.3 | 102 | 100.6 | 99.2 |
| 39 | 121.6 | 120.2 | 118.8 | 117.4 | 116.1 | 114.7 | 113.3 | 111.9 | 110.6 | 109.2 | 107.8 | 106.4 | 105 | 103.7 | 102.3 | 100.9 |
| 40 | 123.3 | 121.9 | 120.5 | 119.1 | 117.8 | 116.4 | 115 | 113.6 | 112.3 | 110.9 | 109.5 | 108.1 | 106.7 | 105.4 | 104 | 102.6 |
| 41 | 125 | 123.6 | 122.2 | 120.8 | 119.5 | 118.1 | 116.7 | 115.3 | 114 | 112.6 | 111.2 | 109.8 | 108.5 | 107.1 | 105.7 | 104.3 |
| 42 | 126.7 | 125.3 | 123.9 | 122.6 | 121.2 | 119.8 | 118.4 | 117 | 115.7 | 114.3 | 112.9 | 111.5 | 110.2 | 108.8 | 107.4 | 106 |
| 43 | 128.4 | 127 | 125.6 | 124.3 | 122.9 | 121.5 | 120.1 | 118.7 | 117.4 | 116 | 114.6 | 113.2 | 111.9 | 110.5 | 109.1 | 107.7 |
| 44 | 130.1 | 128.7 | 127.3 | 126 | 124.6 | 123.2 | 121.8 | 120.4 | 119.1 | 117.7 | 116.3 | 114.9 | 113.6 | 112.2 | 110.8 | 109.4 |
| 45 | 131.8 | 130.4 | 129 | 127.7 | 126.3 | 124.9 | 123.5 | 122.2 | 120.8 | 119.4 | 118 | 116.6 | 115.3 | 113.9 | 112.5 | 111.1 |

| Sgôr safonedig | Dehongliad ansoddol |
|---|---|
| 130 neu drosodd | Yn sylweddol uwch na’r sgôr ganolig |
| 116–130 | Yn uwch na’r sgôr ganolig |
| 85–115 | Yn debyg i’r sgôr ganolig |
| 70–84 | Llai na’r sgôr ganolig |
| Llai na 69 | Yn sylweddol lai na’r sgôr ganolig |

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

@CSC_langlitcomm

**Grymuso ysgolion i wella deilliannau i bob dysgwr**

**Empowering schools to improve outcomes for all learners**